

# Datganiad o Ddiben

## Gwasanaeth Mabwysiadu Cymru

Gorffennaf 2025

**Rhif cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru - W010000722/M001/0006**

Cyfeiriad ein Gwasanaeth Maethu:
**Barnardo's Cymru, Tŷ Britannia, Heol Van, Caerffili, CF38 3GG**

BARNARDO'S

Changing childhoods. Changing lives.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Fframwaith Cyfreithiol | 3 |
| Neges gan y Prif Swyddog Gweithredol | 4 |
| Manylion Cofrestru Gwasanaeth | 5 |
| Nodau, Amcanion a Chanlyniadau | 7 |
| Gwasanaeth a Strwythur Staff | 8 |
| Gwasanaethau a Ddarperir | 12 |
| Recriwtio a Chefnogaeth i Deuluoedd sy'n Maethu | 13 |
| Monitro Ansawdd a Llywodraethu | 16 |
| Cwynion, canmoliaeth, honiadau, chwythu'r chwiban | 17 |


**"Mae mabwysiadu'n rhoi sefydlogrwydd, trefn ac amgylchedd diogel i blant. Nid yn unig ein bywydau ni sy'n newid, ond mae'n newid bywyd ein teulu hefyd."**

Person ifanc mewn gofal maeth



# Fframwaith cyfreithiol

Un o ofynion Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yw bod asiantaeth fabwysiadu yn llunio Datganiad o Ddiben. Ysgrifennwyd y Datganiad o Ddiben hwn yn unol â:

- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 2005 (diwygiwyd 2011)
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020
- Yr Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol a'r Asiantaethau Mabwysiadu
- (diwygiadau amrywiol) Rheoliadau 2003 - Cymru a Lloegr fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol (Diwygio 2005)
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Mabwysiadu (2011)
- Rheoliadau Cynllunio Gofal 2010  Deddf Plant 1989
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu ac Adolygiad Annibynnol o Benderfyniadau (Diwygio) 2011
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2014
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020
- Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion a Gwasanaethau Maethu (Diwygiadau Amrywiol) 2013.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 (SL(5)338)

Mae copi o'r Datganiad o Ddiben hwn wedi cael ei ddarparu i Arolygiaeth Gofal Cymru ac mae i'w weld ar wefan Barnardo's ac mae ar gael ar gais hefyd.

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd, ac o leiaf bob blwyddyn.



# Neges gan y Prif Swyddog Gweithredol



**Ers dros 150 o flynyddoedd, mae Barnardo's wedi bod yn newid plentyndod a bywydau, gan gynnwys drwy ein gwaith yn helpu cannoedd o filoedd o blant a phobl ifanc i fyw gyda theuluoedd maeth cariadus a rhieni sy'n mabwysiadu.**

Maer Barnardo's yn cefnogi tua 370,000 o blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr bob blwyddyn, a hynny drwy ein gwasanaethau a'n partneriaethau ledled y DU.

Rydym yn credu ym mhob plentyn a pherson ifanc ac yn ei botensial. Rydym yn eu cefnogi, yn sefyll yn gefn iddynt, ac yn ennyn y gorau ym mhob un ohonynt.

Rydym yn cefnogi rhieni sy'n mabwysiadu i groesawu plant a phobl ifanc sydd angen cartref cariadus a chefnogol. Rydym yn darparu dros 20 o wasanaethau maethu, mabwysiadu a seibiant wedi'i gynllunio i deuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc o bob oed, rhyw, hil a gallu. Mae ein gwaith paratoi cynhwysfawr, ein hyfforddiant a'n cymorth 24/7 i rieni sy'n mabwysiadu yn ein gwneud yn ddewis dibynadwy ar draws y DU.

**Lynn Perry MBE**
Prif Weithredwr, Barnardo's



# Manylion cofrestru gwasanaeth

**Mae Barnardo's yn gwmni cyfyngedig drwy warant (a gofrestrwyd yn Lloegr dan rif 61625) ac yn elusen gofrestredig (rhifau 216250 a SC037605). Fe'i cofrestrwyd hefyd fel corfforaeth ymddiried ar 16 Rhagfyr 1926. Ei offeryn llywodraethu yw'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu, a ddiwygiwyd yn fwyaf diweddar drwy benderfyniad arbennig a basiwyd ar 17 Gorffennaf 2001.**

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's Cymru yn rhan o Wasanaethau Maethu a Mabwysiadu Barnardo's y DU.

Bwrdd Ymddiriedolwyr Barnardo's, drwy gyfrwng y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, sy'n rheoli Asiantaeth Fabwysiadu Barnardo's. Mae'r pwyllgor hwn yn cyfarfod bob pedwar mis ac yn derbyn adroddiadau gan Reolwr Mabwysiadu y DU a'r Unigolyn Cyfrifol.

Cyflwynir adroddiad blynyddol sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch mabwysiadu Barnardo's i Fwrdd Ymddiriedolwyr Barnardo's. Mae'r Cyfarwyddwr yn cydlynu gwaith yr Asiantaeth rhwng Rheolaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Mabwysiadu.

Yr Unigolyn Cyfrifol yw Brenda Farrell, Pennaeth Maethu a Mabwysiadu, Barnardo's.

Jo-Ann Swanston-King yw Rheolwr Mabwysiadu'r DU a Swyddog Penderfyniadau'r Asiantaeth Fabwysiadu dros Fabwysiadu a Sefydlogrwydd Cynnar yn Barnardo's.

Martin Kaid yw Rheolwr Gweithrediadau Mabwysiadu Cymru.

**Jo-Ann Swanston-King**
Cymhwysodd Jo-Ann fel gweithiwr cymdeithasol ym 1995 ac mae wedi cofrestru gyda Social Work England. Mae Jo-Ann wedi gweithio mewn Awdurdodau Lleol ac yn y sector gwirfoddol. Mae wedi gweithio ym maes gwasanaethau mabwysiadu ers 2005, mewn amrywiol rolau fel ymarferydd, Rheolwr Practis, Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr Cofrestredig Asiantaeth Fabwysiadu. Mae hyn hefyd wedi cynnwys gweithredu fel cynghorydd i banel mabwysiadu. Jo-Ann oedd Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd-orllewin Lloegr Barnardo's rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2021.

Mae gan Jo-Ann y cymwysterau canlynol::

- B.A Anrhydedd mewn Astudiaethau Cymdeithasol Cymhwysol (1995))
- Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (1995)
- Dyfarniad Ôl Gymhwyso mewn Gwaith Cymdeithasol (2010)
- Tystysgrif mewn Astudiaethau Proffesiynol – Rheoli ac Arwain (2013)

Gellir cysylltu â'r Unigolyn Cyfrifol a Swyddog Penderfyniadau'r Asiantaeth yma:

Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's Cymru, Tŷ Britannia, Heol Van, Caerffili, CF83 3GG
Rhif Ffôn: 029 20 484316



**Dyma'r datganiad o ddiben ar gyfer Cangen Cymru.**

Mae'r gangen wedi'i chofrestru i ddarparu:

- Gwasanaethau mabwysiadu domestig a gwasanaethau cefnogi mabwysiadu
- Gwasanaethau cwnsela a chyfryngu o ran cofnodion geni
- Gwasanaethau cefnogi mabwysiadu i blant ac oedolion

**Cangen Mabwysiadu Cymru:**

- Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's Cymru, Tŷ Britannia, Heol Van, Caerffili, CF38 3GG

**Swyddfa Gofrestredig Gwasanaeth Mabwysiadu Lloegr:** Cofrestriad.

Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's
Unit 9 – Regent Building 1st Floor
Pavilion Business Park
Royds Hall Rd
LS12 6AJ

This is the main office for Barnardo's Adoption UK management purposes.

**Cangen Mabwysiadu Lloegr:**

Ceir tair cangen sy'n lleoli plant i'w mabwysiadu a changen ychwanegol sy'n cynnig gwasanaethau cymorth mabwysiadu pwrpasol. Mae Rheolwr Gweithrediadau yn rheoli pob cangen.

- Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's De-ddwyrain Lloegr - Cofrestriad Ofsted SC051838Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG

Mae'r gangen hon hefyd yn darparu dau wasanaeth cefnogi mabwysiadu –

1) LINK Gwasanaeth - Wellington House, 90-92 Butt Road, Colchester, CO3 3DA

2) Gwasanaeth CAFIS - 10 Jubilee Way, Faversham, Kent, ME13 8GD

- Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's Gogledd Lloegr - Cofrestriad Ofsted SC051836Unit 9, Pavilion Business Park, Royds Hall Road, Leeds, LS12 6AJ Mae gan y gangen hon swyddfa yng Ngogledd-orllewin Lloegr ac yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr.
- Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's Canolbarth a De-orllewin Lloegr - Cofrestriad Ofsted SC434885
  The Granary, Tickenham Court Farm, Washing Pound Lane, Tickenham, Clevedon, BS21 6SX

**Cangen Cefnogi Mabwysiadu Lloegr::**

- Making Connections - Cofrestriad Ofsted SC051840
  Barnardo's Making Connections,
  140 Balaam St, London, E13 8RD

**Cangen Mabwysiadu Cymru:**

- Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's Cymru – Cofrestriad AGC CS2005095655
  Barnardo's Cymru, Tŷ Britannia, Heol Van, Caerffili, CF38 3GG

**Cangen Mabwysiadu yr Alban::**

- Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's yn yr Alban (yn cynnwys y Gwasanaeth Lleoliadau Mabwysiadu a'r Gwasanaeth Cefnogi Mabwysiadu). Cofrestriad SCSWIS CS2005095655 Academy Park, Building 10,000, Gower St, Glasgow, G51 1PR

**Cangen Mabwysiadu Gogledd Iwerddon:**

- Gwasanaeth Mabwysiadu Barnardo's yng Ngogledd Iwerddon - Cofrestriad RQIA 020764

# Nodau, Amcanion a Chanlyniadau

## Nodau

Yn Barnardo's, dydyn ni ddim yn credu y dylai gorffennol plentyn ddiffinio ei ddyfodol; mae pob plentyn yn haeddu cyfle i gyflawni ei botensial.

Rydym yn cydnabod bod y plant rydym yn ceisio dod o hyd i gartrefi iddyn nhw ymysg y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gweithredir ar farn, dymuniadau a theimladau plant, oni bai eu bod yn groes i'w buddiannau.

Mae Barnardo's yn credu bod rhieni da yn dod o lawer o wahanol gefndiroedd ac maen nhw yr un mor amrywiol â'r plant sydd angen cartref. Mae'n ofynnol i ddarpar fabwysiadwyr ddangos eu bod yn gallu magu plentyn yn ddiogel ac yn fedrus hyd at annibyniaeth a'r tu hwnt. Mae mabwysiadu yn ymrwymiad am oes ac mae Barnardo's wedi ymrwymo i barhau i fod yn ymatebol ac yn gefnogol drwy'r daith honno ar ei hyd.

Mae Barnardo's yn deall pwysigrwydd hunaniaeth ethnig a diwylliannol yn ei waith lleoli gyda theuluoedd a'i nod, lle bo hynny'n bosibl, yw paru plant gyda mabwysiadwyr sy'n adlewyrchu a/neu'n hyrwyddo tarddiad ethnig, cefndir diwylliannol, crefydd ac iaith y plant.

Cynigir cefnogaeth briodol i bob teulu i'w galluogi i fynd i'r afael ag anghenion penodol y plentyn. Bydd hyn yn cynnwys gwella gallu'r rhieni i ddeall a hyrwyddo hunan-barch, hyder a hunaniaeth gadarnhaol y plentyn. Mae gan Barnardo's fynediad at sbectrwm eang o wasanaethau cefnogi y gellir eu defnyddio i ymateb i anghenion unigol.

## Amcanion a Chanlyniadau

1. Darparu teuluoedd maeth diogel i blant. Nod ein gwasanaethau a'n polisïau yw sicrhau'r canlyniad hwn i blant sydd angen eu mabwysiadu.
2. Cynyddu'r dewis o leoliadau er mwyn gwneud y broses fabwysiadu yn gynt i blant. Y plant sydd fwyaf tebygol o angen ein gwasanaeth yw'r rheini o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol, grwpiau brodyr a chwiorydd, plant oedran ysgol, plant ag anghenion ychwanegol sy'n deillio o anableddau dysgu neu gorfforol a phlant ag anawsterau ymddygiadol ac emosiynol.
3. Recriwtio, paratoi, asesu a chefnogi darpar deuluoedd sy'n mabwysiadu. Bydd y teuluoedd hynny yn cael eu hystyried yn seiliedig ar eu gallu i ddiwallu anghenion y plant a nodir.
4. Canfod a darparu lefel uchel o gefnogaeth emosiynol, ymarferol a chyfreithiol i blant a theuluoedd ar ôl mabwysiadu. Bydd yr asiantaeth yn ceisio helpu teuluoedd i gael gafael ar y gefnogaeth sy'n addas iddyn nhw.
5. Mae'r asiantaeth yn cynnig cefnogaeth a chwnsela i oedolion sydd â chysylltiad â mabwysiadu, yn ogystal â chynnig gwasanaeth cyfryngol i oedolion sy'n dewis Barnardo's fel yr asiantaeth fabwysiadu berthnasol.
6. Gall Barnardo's gynnig amrywiaeth o hyfforddiant ac ymgynghoriaeth.



# Service & Staff Structure

- **Brenda Farrell**, Unigolyn Cyfrifol
  Amser llawn (37 awr)
  Dip / CCETSW / BA Hons / NVQA
  - **Sarah Morgan** Pennaeth Busnes Cynorthwyol
    Amser llawn (37 awr)
    Dip SW
    - Swyddog Marchnata a Recriwtio
      18.13 awr
    - Rheolwr Practis Mabwysiadu
      Amser llawn (37 awr)
      - Dargan fyddwr Teuluuoedd
        30 awr
      - Gweithiwr Prosiect
        21.75 awr
      - Gweithiwr Cymde ithasol
        30awr
      - Gweithiwr Cymde ithasol
        30awr
      - Gweithiwr Cymde ithasol
        30awr
      - Gweithiwr Cymde ithasol
        30awr
    - **Martin Kaid**, Rheolwr Gweithrediadau.
      Amser llawn (37 awr)
      Dip SW/ILM 5
      - Rheolwr Practis Mabwysiadu (see above)
      - Rheolwr Cefnogi Busnes
        18.13 awr
        - Gweinyddwr y Gwasanaeth
          36.25 awr



# Gwasanaeth a Strwythur Staff

## Rolau a chymwysterau

### Pennaeth Busnes Cynorthwyol

Mae Sarah Morgan yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Cymhwysodd Sarah fel Gweithiwr Cymdeithasol yn 2002 a chwblhaodd ei chymhwyster “Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol” yn 2012. Mae ganddi gyfoeth o brofiad o reoli gwasanaethau lleoli gyda theuluoedd, gan weithio’n ddwys gyda theuluoedd ac ar y cyd ag awdurdodau lleol.

Mae’r Pennaeth Busnes Cynorthwyol yn gyfrifol am reolaeth strategol a goruchwylio’r gwasanaeth mabwysiadu, ei swyddogaethau a’i feysydd cyfrifoldeb ac mae’n adrodd i’r Unigolyn Cyfrifol.

Y Pennaeth Busnes Cynorthwyol yw’r rhyngwyneb strategol rhwng Gwasanaeth Cymru a gwasanaethau mabwysiadu Barnardo’s ledled y wlad. Mae gan y Pennaeth Busnes Cynorthwyol gylch gwaith clir i sicrhau ansawdd.

### Rheolwr Gweithrediadau

Mae Martin Kaid yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae ganddo Ddyfarniad ILM Lefel 5 mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

Mae Martin wedi bod yn gymwysedig ers 18 mlynedd, gan weithio yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac fel Swyddog Cydraddoldeb ar gyfer y Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol yn Rhondda Cynon Taf. Mae hefyd wedi bod yn asesydd annibynnol, ac yn rheolwr gwasanaeth i Action for Children-Gweithredu dros Blant yn ogystal â Gwasanaethau Plant Barnardo’s. Mae Martin wedi gweithio i Barnardo’s ers 11 mlynedd.

Y Rheolwr Gweithrediadau sy’n gyfrifol am weithrediad cyffredinol y gwasanaeth mabwysiadu i fabwysiadwyr sydd wedi’u cymeradwyo a phlant y mae angen cartrefi mabwysiadu arnynt. Mae ganddo brofiad ym maes mabwysiadu a gwasanaethau plant ehangach a hanes llwyddiannus o gyflawni canlyniadau llwyddiannus i blant a mabwysiadwyr. Mae’r Rheolwr Gweithrediadau yn adrodd i’r Pennaeth Busnes Cynorthwyol.

Y Rheolwr Gweithrediadau sy’n gyfrifol am reoli’r gyllideb ac mae’n ymwneud â datblygu a gweithredu nodau ac amcanion strategol y sefydliad. Mae’r Rheolwr Gweithrediadau yn gyfrifol am reoli Rheolwyr Practis ac mae’n eistedd ar y Panel yn rôl Cynghorydd y Panel. At hynny, mae’n sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau’n gyfredol, yn cwblhau archwiliadau o’r gwasanaeth i sicrhau safon uchel, ac yn monitro a chynghori ar gwynion a honiadau difrifol gan sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn a bod mesurau diogelu ar waith.

Mae’r Rheolwr Gweithrediadau yn gyfrifol am oruchwylio, datblygu a rheoli’r rheolwr practis a’r gweithwyr cymdeithasol yn y tîm. Bydd y Rheolwr Gweithrediadau hefyd yn gyfrifol am recriwtio aelodau panel sydd â’r cymwysterau a’r profiad priodol, arfarniadau panel (ar y cyd â chadeirydd y panel) a chydlynu hyfforddiant y panel.

## Rheolwr Practis

Mae Erica yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae Erica wedi cymhwyso ers 2007 a chwblhaodd fodiwl atgyfnerthu ôl-gymhwysol mewn gwaith cymdeithasol yn 2009. Mae Erica wedi gweithio ym maes gwasanaethau oedolion a phobl hŷn cyn symud i wasanaethau plant, yn ogystal â gweithio mewn timau amddiffyn plant ar ddyletswydd ac yn asesu. Mae wedi bod yn gweithio mewn gwasanaeth mabwysiadu ers 2015. Ymunodd Erica â Barnardo's o asiantaeth fabwysiadu arall ym mis Tachwedd 2023.

Mae'r Rheolwr Practis yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r Gweithwyr Cymdeithasol a'r Gweithiwr Prosiect a'r Darganfyddwr Teuluoedd. Bydd rheolwr y Practis Mabwysiadu yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygu gwasanaethau hyfforddi a chefnogi ar gyfer mabwysiadwyr, ynghyd â chyfrifoldebau am recriwtio ac asesu. Mae'r Rheolwr Practis yn adrodd i'r Rheolwr Gweithrediadau.

## Gweithwyr Cymdeithasol

Mae 4 Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig cyfwerth ag amser llawn yn y tîm sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhyngddyn nhw, maen nhw'n rhannu cymwysterau mewn meysydd ymarfer arbenigol e.e. Ymarfer Datblygiadol Dyadig, Addysg Ymarfer a Therapi Chwarae Lefel 1. Gallan nhw hefyd ymgymryd â rolau arweiniol o fewn y tîm ar gyfer meysydd arferion da yn cynnwys goruchwylio myfyrwyr, mentora mabwysiadwyr a lleoliadau parhaol cynnar.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn defnyddio cronfa fach o ymgynghorwyr annibynnol sydd ar gael i gynnal asesiadau a darparu hyfforddiant a gwasanaethau therapiwtig i fabwysiadwyr.

## Darganfyddwr Teuluoedd

Mae'r darganfyddwr teuluoedd (4 diwrnod yr wythnos) yn canolbwyntio ar gysylltu a pharu plant â'n mabwysiadwyr cymeradwy. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda mabwysiadwyr sydd newydd eu cymeradwyo i lunio proffil darganfod teulu, cysylltu â phobl eraill sy'n dod o hyd i deuluoedd ledled gwasanaeth mabwysiadu Barnardo's yn genedlaethol, datblygu cysylltiadau gydag Awdurdodau Lleol i rannu gwybodaeth am deuluoedd aros Barnardo's a'u hyrwyddo, a chynrychioli'r gwasanaeth a chefnogi darpar fabwysiadwyr mewn digwyddiadau darganfod teuluoedd rhanbarthol a chenedlaethol.

## Gweithiwr Prosiect - Cyfranogaeth

Prif rôl y Gweithiwr Prosiect yw fel Arweinydd Cyfranogiad, sy'n gyfrifol am drefnu a hwyluso digwyddiadau cyfranogi'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mabwysiadu, grwpiau cefnogi a digwyddiadau cymdeithasol y mae Barnardo's Cymru yn eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, ar gyfer darpar fabwysiadwyr, mabwysiadwyr cymeradwy a'u plant. Mae'r Gweithiwr Prosiect hefyd yn helpu darganfyddwr teuluoedd y gwasanaeth i gefnogi nifer fach o fabwysiadwyr cymeradwy yn ogystal â threfnu a chefnogi gyda digwyddiadau proffilio a diwrnodau gweithgareddau a gynhelir ar gyfer mabwysiadwyr cymeradwy. Gall y gweithiwr prosiect hefyd gynnig cefnogaeth lefel isel i Fabwysiadwyr sydd â phlant wedi'u lleoli gyda nhw, a allai fod angen cefnogaeth barhaus lle nad oes angen ymyrraeth gweithiwr cymdeithasol.

## Cymorth Busnes

Cefnogir y gwasanaeth gan dîm Cymorth Busnes profiadol ac effeithlon sy'n sicrhau bod systemau'n rhedeg yn esmwyth a bod pawb sy'n cysylltu â'r asiantaeth yn cael profiad cadarnhaol. Mae'r Rheolwr Cymorth Busnes yn cefnogi ac yn goruchwylio'r tîm Cymorth Busnes.

## Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru – Cynnig Cymraeg

Mae Barnardo's yn dangos parch tuag at yr iaith Gymraeg yn ystod pob gweithgaredd gan gydnabod yr angen i ymateb i anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg mewn modd priodol. Mae Gwasanaethau Lleoli gyda Theuluoedd Barnardo's Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i fodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Chynnig Rhagweithiol Cymru fel un o werthoedd craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

O fewn Barnardo's Cymru, mae rôl uwch reoli arweiniol yn benodol ar gyfer y Gymraeg a Grŵp Strategaeth Iaith Gymraeg gweithredol sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae Barnardo's yn darparu gwasanaethau yng nghadarnleoedd y Gymraeg yng Nghymru; mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill lle mai'r Gymraeg yw iaith busnes.

Rydym yn rhoi 'cynnig rhagweithiol' ar waith yn gyson o ran ein hymrwymiad iaith Gymraeg ar draws ein holl wasanaethau yng Nghymru ac yn gweithredu'n ddwyieithog o ran arwyddion (cyhoeddusrwydd ac adeiladau), hysbysebion, gwefannau, recriwtio a staffio, a deunyddiau cefnogi sy'n sicrhau nad yw'r naill iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r llall. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau'r canlynol yn gadarnhaol:

- Mae pob plentyn, person ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybod y gallant gael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Y gellir darparu pob gohebiaeth gychwynnol i deuluoedd yn ddwyieithog.
- Bod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu paru â phlant a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg.
- Byddwn yn ystyried y teuluoedd yn y gymuned ac yn gwneud teuluoedd yn ymwybodol o ble y gallant gael gwasanaeth dwyieithog; gan ddarparu capasiti dwyieithog i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n briodol ac yn amserol.



# Gwasanaethau a ddarperir

Trefn recriwtio, paratoi ac asesu darpar fabwysiadwyr.

Sefydlogrwydd cynnar

Dod o hyd i deulu ar gyfer mabwysiadwyr cymeradwy

Amrywiaeth o weithdai a diwrnodau hyfforddi ar ôl cymeradwyo

Therapi Lleoliad Cynnar ar y pwynt paru â phlentyn

Cefnogaeth emosiynol, ymarferol a chyfreithiol i blant a theuluoedd ar ôl mabwysiadu

Cyrsiau rhianta therapiwtig i deuluoedd sy'n mabwysiadu

Cefnogaeth a chyngor llinell gymorth y tu allan i oriau

Grwpiau cymorth a digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd i fabwysiadwyr

Cynllun mentora lle mae mabwysiadwr profiadol yn darparu cymorth i fabwysiadwr arall

Asesu'r angen am gefnogaeth ar ôl mabwysiadu, gan gynnwys cefnogi ceisiadau i'r Gronfa Cefnogi Mabwysiadu

Gwasanaethau cwnsela a seicotherapi ar ôl mabwysiadu a ddarperir gan Wasanaeth Mandala Barnardo's, LINK, neu ymgynghorwyr allanol

Therapi datblygiadol dyadig

Mae'r asiantaeth yn cynnig cefnogaeth a chwnsela i oedolion sydd â chysylltiad mabwysiadu ac mae'n cynnig gwasanaeth cyfryngu i oedolion lle mai Barnardo's yw'r asiantaeth fabwysiadu berthnasol

Cynnal a chefnogi presenoldeb mewn digwyddiadau proffilio

# Recriwtio a Chefnogaeth i Deuluoedd sy'n Maethu

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, paratoi, asesu, cymeradwyo a chefnogi darpar rieni mabwysiadol.

## Ymholiad cychwynnol

Os bydd darpar fabwysiadwr/wyr posibl yn dymuno bwrw ymlaen, fe'u gwahoddir i gymryd rhan yn unrhyw un o'r canlynol;

- Gwahoddiad i'r digwyddiad gwybodaeth nesaf; min nos ac unrhyw gyfarfodydd gwybodaeth sy'n cael eu cynnal mewn asiantaeth sy'n agos atynt yn ddaearyddol os yw'r cyfarfodydd hynny'n cael eu cynnal yn gynt.
- Cyfarfod wedi'i drefnu ymlaen llaw, naill ai yng nghartref y darpar fabwysiadwyr neu yn swyddfa'r asiantaeth; neu
- Galwad ffôn wedi'i threfnu ymlaen llaw.

Bydd y darpar fabwysiadwyr posibl yn cael mwy o wybodaeth am fabwysiadu ac yn enwedig am y broses fabwysiadu gyda Barnardo's a sut y gallwn eu cefnogi.

## Ymweliad cartref cychwynnol

Y cam nesaf os yw'r ymholwr yn dymuno parhau, a'n bod yn dymuno ystyried yr ymholiad ymhellach, fydd i un o'n gweithwyr cymdeithasol ymweld â'r ymholwr yn ei gartref neu fe drefnir ymweliad ar-lein. Mae hwn yn gyfle i gael rhagor o wybodaeth am y broses fabwysiadu ac mae'n ein galluogi ni i gael rhagor o wybodaeth am yr ymholwr. Ar ôl hyn, bydd gan y darpar fabwysiadwr posibl amser i ystyried a yw mabwysiadu'n iawn iddyn nhw ar hyn o bryd.

Os yw'r ymholwr yn dymuno symud ymlaen i'r cam nesaf, bydd gofyn iddyn nhw lenwi'r Ffurflen Cofrestru Diddordeb yn ffurfiol.

## Ffurflen Cofrestru Diddordeb a gwiriadau

The Registration of Interest form will request consent from an enquirer for us to make the following checks:

- Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael gwybodaeth am unrhyw ymddygiad troseddol neu euogfarnau. Ni fydd pob trosedd yn creu anawsterau o ran gwneud cais, ond mae'n hanfodol bod unrhyw bryderon yn cael eu trafod pan fyddwn yn ymgymryd â'r broses Cofrestru Diddordeb.
- Geirdaon gan asiantaethau eraill megis Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol (ALl), darparwyr morgeisi neu landlord a chyflogwyr.
- Byddwn yn gofyn am fanylion nifer o eirdaon personol a theuluol fesul ymgeisydd.
- Byddwn hefyd yn gofyn am ganiatâd ar gyfer archwiliad meddygol llawn.

Pan fydd Datganiad o Ddiddordeb wedi'i gwblhau, byddwn yn ymateb o fewn pump diwrnod gwaith ac, os caiff ei dderbyn, byddwn yn gofyn i'r ymholwr fod mewn sefyllfa i ddechrau paratoi ar gyfer Cam Un.



## Cam Un – Y broses cyn-asesu

Disgwylir y bydd Cam Un fel arfer yn cael ei gwblhau o fewn dau fis. Yn ystod y cam hwn, bydd y darpar fabwysiadwr yn archwilio i ba raddau y mae ganddo ddiddordeb mewn mabwysiadu a'r gallu i fabwysiadu, cyn i'r asiantaeth benderfynu p'un a ddylid

symud ymlaen i Gam Dau. Am y rheswm hwn, bydd Cam Un yn canolbwyntio ar hyfforddiant cychwynnol a pharatoi, ac ar ganfod, drwy wiriadau a chyfeiriadau rhagnodedig, a oes unrhyw reswm absoliwt pam na ddylai'r ymholwr fynd ymhellach yn y broses.

Bydd rhan o'r cam hwn yn cynnwys yr ymholwr yn cwblhau tasgau yn ei lyfr gwaith megis disgrifio ei deulu, dysgu am blant y gellir eu mabwysiadu, rhannu ei brofiad gyda phlant, ac ati.

Rydym yn cydnabod bod pobl yn dod i fabwysiadu o nifer o wahanol amgylchiadau a phrofiadau bywyd. Byddwn yn rhoi arweiniad llawn i ddarpar ymholwr er mwyn iddo gallu canfod ei gryfderau a'i wendidau posibl o fynd ymlaen i fagu plant drwy fabwysiadu. Gyda'n gilydd, byddwn yn llunio cytundeb Cam Un a fydd yn nodi'n glir beth sydd angen ei wneud mewn ffordd sy'n teimlo'n iawn i'r ymholwr.

### Hyfforddiant paratoi

Yn ystod y cam hwn, byddwn yn gwahodd yr ymholwr i ddechrau cwrs paratoi. Mae hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau gyda phobl eraill sydd yng nghanol cam un a staff arbenigol. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth a chyfleoedd i'r ymholwr archwilio'n drylwyr ei ddisgwyliadau o fabwysiadu.

Bydd yr ymholwyr yn cwrdd â phobl eraill ar yr un cam o'r broses, yn ogystal â phobl sydd eisoes wedi mabwysiadu a byddan nhw'n cael cyfle i feddwl mwy am y plant sydd angen eu mabwysiadu. Mae hyn yn rhan orfodol o'r broses fabwysiadu.

Yn ystod Cam Un, byddwn yn cwblhau'r archwiliadau ffurfiol ac yn gofyn i'r ymholwr ymweld â'i feddyg teulu am archwiliad meddygol. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad ag ymholwyr drwy gydol Cam Un a phan fyddant bron â'i gwblhau, byddwn yn adolygu'r cynnydd gyda nhw ac yn tynnu sylw at unrhyw bryderon neu angen am ymchwiliadau pellach.

Mae cam un yn dod i ben gyda phenderfyniad yr asiantaeth p'un a yw'r darpar fabwysiadwr yn addas i symud ymlaen i Gam Dau. Os felly, a'i fod hefyd yn dymuno parhau, gofynnir i'r ymholwr gadarnhau ei fod yn derbyn o fewn chwe mis a bydd angen iddo fod ar gael yn llwyr i gymryd rhan yng Ngham Dau bryd hynny.



## Cam Dau

**Ar ôl i ddarpar fabwysiadwr roi gwybod i ni ei fod yn derbyn y gwahoddiad i symud i Gam Dau, bydd gweithiwr cymdeithasol yn cwrdd ag ef a gyda'i gilydd byddan nhw'n cwblhau cynllun Cam Dau (Cytundeb). Bydd hyn yn nodi amserlen ar gyfer ymgymryd ag asesiad unigol y darpar fabwysiadwr a byddai'r cam hwn fel arfer yn cael ei gwblhau o fewn pedwar mis.**

### Proses asesu ar gyfer mabwysiadu

Yn ystod y broses asesu, bydd gweithiwr cymdeithasol y darpar fabwysiadwyr yn treulio mwy o amser gyda nhw, yn dod i'w hadnabod yn well ac yn archwilio hanes eu bywyd a'u hanes teuluol. Os oes gan ymholwr blant gartref, bydd angen i'w gweithiwr cymdeithasol hefyd ddod i'w hadnabod nhw fel rhan o'r uned deuluol.

Tua diwedd y cam hwn, bydd y gweithiwr yn cwblhau Adroddiad Darpar Fabwysiadwr (PAR) neu Adroddiad Asesu Mabwysiadwr (AAR) i'w gyflwyno i'r Panel Mabwysiadu.

Bydd y darpar fabwysiadwr yn cael cyfle i weld a rhoi sylwadau ar yr adroddiad hwn cyn iddo gael ei gyflwyno i'r panel. Mae'r Panel Mabwysiadu yn cynnwys unigolion profiadol o amrywiaeth o broffesiynau sy'n gweithio gyda phlant a gall hefyd gynnwys rhywun sydd wedi mabwysiadu o'r blaen a rhywun sydd wedi cael ei fabwysiadu.

Bydd y panel yn ystyried yr wybodaeth a ddarperir a gwahoddir y darpar fabwysiadwr i gwrdd â nhw yn bersonol. Ar ôl hynny byddan nhw'n gwneud argymhelliad p'un a yw'r darpar fabwysiadwr yn addas i fabwysiadu. Bydd y penderfyniad terfynol wedyn yn cael ei wneud gan Swyddog Penderfyniadau Asiantaeth Fabwysiadu Barnardo's.

### Canfod teulu / paru

Ar ôl i'r darpar fabwysiadwr gael ei gymeradwyo gan yr asiantaeth fel unigolyn sy'n 'Addas i fabwysiadu', byddwn yn ei gynorthwyo i ddod o hyd i deulu. Byddwn yn cwrdd â'r darpar fabwysiadwr ac yn cwblhau Cytundeb Cynllun Paru sy'n amlinellu'r broses ar gyfer nodi plentyn/plant y gallai'r darpar fabwysiadwr fod yn addas ar eu cyfer.

Byddwn hefyd yn eu helpu i lunio proffil byr ohonyn nhw'u hunain a fydd yn cael ei rannu â phobl mewn Awdurdodau Lleol sy'n dod o hyd i deuluoedd i blant. Rydyn ni'n gofyn i'r holl ddarpar fabwysiadwyr baratoi llyfr neu DVD amdanyn nhw eu hunain i'w rannu â'r plentyn a allai ymuno â'u teulu maes o law. Bydd y darpar fabwysiadwr hefyd yn cael ei gofrestru ar Link Maker sy'n gweithredu i gysylltu mabwysiadwyr cymeradwy â phlant sydd â chynllun mabwysiadu. Nid oes Cofrestr Fabwysiadu Genedlaethol weithredol yn Lloegr ar hyn o bryd.

Caiff plant y mae angen eu mabwysiadu eu cyfeirio mewn sawl ffordd a bydd gweithiwr cymdeithasol y darpar fabwysiadwr a Gweithwyr Prosiect yn ei gefnogi i edrych ar broffiliau plant a mynegi diddordeb mewn plant y mae o'n teimlo y gallai ei helpu. Os yw gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn teimlo mai'r darpar fabwysiadwr yw'r unigolyn/teulu iawn, yna cynhelir cyfarfodydd i drafod y plentyn yn fanylach gan alluogi'r darpar fabwysiadwr i gael cymaint o wybodaeth â phosibl.

Pan fydd y darpar fabwysiadwr a'r gweithwyr yn cytuno bod popeth i'w weld yn iawn, bydd argymhelliad 'paru' ffurfiol yn mynd at Banel Mabwysiadu'r Awdurdod Lleol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys argymhellion am unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar y mabwysiadwr.

Os cytunir ar y 'paru', cynhelir cyfarfod gyda'r darpar fabwysiadwr i gynllunio'r cyflwyniadau a'r lleoliad. Yn Barnardo's byddwn yn gweithio'n agos gyda'r darpar fabwysiadwr drwy gydol y prosesau hyn ac yn eu cefnogi i setlo'r plant yn eu teulu.

Unwaith y lleolir plentyn, bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn a gweithiwr cymdeithasol y darpar fabwysiadwr yn parhau i ymweld â'r teulu'n rheolaidd i sicrhau bod popeth yn iawn. Bydd y darpar fabwysiadwr yn cael ei gefnogi drwy gydol y lleoliad a hyd at wrandawiad llys y gorchymyn mabwysiadu, a bydd cyfarfodydd adolygu rheolaidd yn cael eu cynnal hyd nes y bydd y plentyn yn cael ei fabwysiadu'n gyfreithiol. Bydd y darpar fabwysiadwr yn cael cyfle i fynychu hyfforddiant pellach, grwpiau cefnogi mabwysiadwyr a digwyddiadau cymdeithasol a bod yn rhan o'n cynllun mentora. Pan fydd pawb yn hyderus bod y lleoliad yn mynd yn dda, bydd y mabwysiadwr yn gallu gwneud cais am orchymyn Mabwysiadu. Bydd amseriad y cais yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd adolygu.

### Cymorth ar ôl mabwysiadu

Mae mabwysiadu'n daith sy'n para oes a bydd Barnardo's yn cefnogi mabwysiadwyr bob cam o'r ffordd, yn cynnwys y blynyddoedd ar ôl mabwysiadu. Mae cymorth ar ôl mabwysiadu yn gymorth neu'n gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau parhad y berthynas rhwng y plentyn sy'n cael ei fabwysiadu a'r rhieni sy'n mabwysiadu. Pan fydd plentyn yn cael ei leoli gyda mabwysiadwr, bydd cynllun cymorth mabwysiadu yn cael ei lunio a fydd yn cyfeirio at anghenion cymorth y naill a'r llall. Mae angen cymorth ychwanegol ar lawer o deuluoedd ac mae nifer o wasanaethau ar gael i helpu wrth i'r mabwysiadwr a'r plentyn feithrin eu perthynas. Mae Barnardo's yn cynnig amrywiaeth o gefnogaeth a bydd yr opsiwn iawn ar gyfer mabwysiadwr yn dibynnu ar ei sefyllfa unigol. Pan fydd mabwysiadwyr yn cysylltu â ni, byddwn yn gweithio gyda nhw i ganfod eu hanghenion cymorth ar ôl mabwysiadu.

# Monitro Ansawdd a Llywodraethu

**Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cadw trosolwg ar reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn unol â'i gynllun busnes blynyddol. Gwneir hyn drwy ymgysylltu â phlant, rhieni sy'n mabwysiadu a staff, dadansoddi data, mynychu paneli mabwysiadu, ymweld â'r gwasanaeth a llunio;**

1) Adroddiad adolygu ansawdd gofal ar gyfer Barnardo's sy'n cael ei gwblhau bob chwe mis ac sy'n cynnwys asesiad o safon y gofal ac argymhellion cysylltiedig;
2) Adroddiad ar ba mor ddigonol yw'r adnoddau sydd ar gael (a elwir yn fewnol yn Adroddiad Perfformiad a Gwelliannau Chwarterol) bob chwarter.
3) Datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (AGC).

Mae hefyd amrywiaeth o systemau ar waith i fonitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaethau mabwysiadu Barnardo's, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol a bod yr ansawdd o safon briodol.

- Mae'r holl Weithwyr Cymdeithasol wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'r holl staff yn destun gwiriadau a geirdaon gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Mae'r holl staff yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol reolaidd ac Adolygiad Perfformiad a Thwf blynyddol (PGR).
- Bydd holl aelodau'r panel mabwysiadu'n cael eu gwerthuso'n ffurfiol bob blwyddyn.
- Bydd yr asiantaeth yn cynhyrchu adroddiad ddwywaith y flwyddyn am weithgarwch a pherfformiad y panel gan gynnwys ystadegau, aelodaeth a materion o ddiddordeb neu bryder.
- Bydd y panel yn derbyn diweddariad bob hanner blwyddyn gan yr asiantaeth ar gynnydd mabwysiadwyr cymeradwy o ran dod o hyd i deuluoedd a'r lleoliadau a gyflawnwyd.





- Bydd y panel yn darparu adborth ar ansawdd adroddiadau i'r asiantaeth bob chwe mis.
- Gofynnir i'r holl ddarpar fabwysiadwyr a'r gweithwyr cymdeithasol roi adborth ysgrifenedig ar ôl mynychu'r panel.
- Mae'r panel yn ystyried adroddiadau am leoliadau lle tarfwyd arnyn nhw ac achosion a gyfeiriwyd at yr IRM i roi cyngor ar y gwersi i'w dysgu.
- Bydd pob darpar fabwysiadwr cymeradwy nad oes ganddyn nhw leoliadau yn cael adolygiad blynyddol.
- Mae'r gwasanaeth yn gofyn i bob mabwysiadwr cymeradwy lenwi'r arolwg adborth blynyddol.
- Mae'r gwasanaeth yn casglu adborth plant a phobl ifanc mewn digwyddiadau.
- Caiff adolygiadau Perfformiad a Gwelliannau chwarterol o'r gwasanaeth eu cynnal gan y Rheolwr Gweithrediadau a'r Pennaeth Busnes Cynorthwyol.
- Cyflwynir adroddiad ar y gwasanaeth mabwysiadu dair gwaith y flwyddyn i fwrdd yr ymddiriedolwyr.
- Arolygir y gwasanaeth mabwysiadu gan Arolygiaeth Gofal Cymru a chan Arolygwyr Ifanc Barnardo's

# Cwynion, canmoliaeth, honiadau a chwythu'r chwiban

## Canmoliaeth

Rydym yn dathlu ein gwaith a'n cyflawniadau drwy gofnodi canmoliaeth a chymeradwyaeth. Dyma ddetholiad o sylwadau a wnaed am ein staff a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig:

**Arolygiad Arolygwyr Ifanc Medi 2024:**

Dywedodd yr arolygwyr –

**"Mae gan bawb o gwmpas y plentyn gysylltiadau cyfathrebu da. Mae'r gwasanaeth yn cadw'r plentyn yng nghanol popeth a wna ac yn meithrin perthynas ragorol gyda phawb sy'n gysylltiedig. Mae'r gwasanaeth yn cynnig teimlad cartrefol, cyfeillgar."**

---

**"Mae'r rhai sy'n mabwysiadu yn derbyn pecyn hyfforddi helaeth cyn ac ar ôl mabwysiadu, ac mae teuluoedd yn cael eu cefnogi gyda syniadau atyniadol i helpu i roi llais i'r plant a'r bobl ifanc. Mae'r staff i gyd wedi cael hyfforddiant therapiwtig."**

Dywedodd y rhai sy'n mabwysiadu -

**"Mae tîm Barnardo's yn wych, maen nhw bob amser ar gael i ni, ni waeth faint o gwestiynau sydd gennym. Maen nhw'n llawn gwybodaeth defnyddiol am bopeth."**

Dywedodd Awdurdodau Lleol –

**"Mae gwaith paru Barnardo's yn drylwyr iawn bob amser, ac felly'n sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl ifanc yn ein gofal. Rydym wir yn dibynnu arnyn nhw i'n helpu ni i sicrhau canlyniadau gwell ac i gefnogi teuluoedd pan fydd problemau'n codi."**



## Cwynion

Nod proses gwyno Barnardo's yw datrys cwyn ar y lefel fwyaf anffurfiol posibl. Gellir cyflwyno cwynion yn ysgrifenedig neu ar lafar i unrhyw aelod o staff hyd at ac yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol.

**Cam 1-Datrys yn Gynnar**

Mae gweithiwr neu reolwr yn gwrando ar y gŵyn ac yn cytuno ar gamau gweithredu i ddatrys y sefyllfa. Mae'n gyfle i ddatrys pryderon neu gwynion heb ddefnyddio proses ffurfiol.

**Cam Un - Cwyn Ffurfiol**

Pan nad yw'r gweithiwr neu'r rheolwr wedi gallu datrys pryderon yn y cam datrys cynnar neu os yw'r gŵyn o'r fath fel bod y rheolwr yn ystyried y byddai gwell dechrau gyda'r cam cyntaf.

**Cam 2 - Cwyn Derfynol**

Pan ymchwiliwyd i'r gŵyn yng Ngham Un a bod yr achwynydd yn dal yn anfodlon â'r canlyniad. Y rheolwr sy'n arwain ar gwynion sy'n gwneud y penderfyniad i ymchwilio yng ngham dau. Rheolwr arall fydd y swyddog ymchwilio a bydd person annibynnol yn cysgodi'r ymchwiliad.


Cyswllt cwynion:

**Barnardo's Head Office, Tanners Lane, Ilford, Essex IG6 1QG**

Ffôn: **020 8550 8822** Email: **cs.complaints@barnardos.org.uk**




## Chwythu'r Chwiban

Chwythu'r chwiban yw rhoi gwybod, er lles y cyhoedd, am bryder bod rhywbeth yn digwydd yn Barnardo's na ddylai ddigwydd, neu nad yw'n digwydd er y dylai ddigwydd. Mae'n seiliedig ar Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae Barnardo's wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran g.onestrwydd, uniondeb, atebolrwydd ac ymarfer a gellir codi pryderon drwy'r broses Chwythu'r Chwiban.

Safecall sy'n darparu ein gwasanaeth Chwythu'r Chwiban ac mae eu manylion ar gael isod. Mae'r ddolen yma hefyd yn egluro sut rydym yn delio ag unrhyw adroddiadau a gawn. Gallwch chi gysylltu â Safecall ar 0800 915 1571 neu ar-lein drwy Roi gwybod am Bryder Chwythu'r Chwiban'.

Ni fydd modd olrhain eich adroddiad ac mae gan Safecall weithredwyr wedi'u hyfforddi i'ch cefnogi. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, mae'n gyfrinachol ac yn agored 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.



## Ffyrdd eraill o gwyno

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Cysylltu â ni -**
Arolygiaeth Gofal Cymru

**Comisiynydd Plant -**
Cysylltu â ni - Comisiynydd Plant Cymru

**Yr Ombwdsmon -**
Croeso i'r Ombwdsmon | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**IRM -** Hafan | IRM Cymru

## Rheoleiddio ac Arolygu

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) -**
Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Cysylltu â ni | Arolygiaeth Gofal Cymru

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o wasanaeth Mabwysiadu Barnardo's Cymru ym mis Mawrth 2018.

© Barnardo's, 2025 Cedwir pob hawl

Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r adroddiad hwn, gan gynnwys y lluniau, na'i storio ar system ad-alw awdurdodedig, na'i drawsyrru mewn unrhyw ffurf na mewn unrhyw ffordd, heb ganiatâd y cyhoeddwr ymlaen llaw.

Modelau sydd yn y lluniau ac mae'r enw wedi'i newid er mwyn diogelu manylion personol.

barnardos.org.uk

Barnardo House Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG. 020 8550 8822.

Northern Ireland 542–544 Upper Newtownards Road, Belfast BT4 3HE. 028 9067 2366.

Scotland 111 Oxgangs Road North, Edinburgh EH14 1ED. 0131 446 7000.

Cymru/Wales Trident Court, East Moors Road, Cardiff CF24 5TD. 029 2049 3387.

Barnardo's Registered Charity Nos.216250 and SC037605 26194mw25

Changing childhoods. Changing lives.